AQA CCEA OCR Pearson CBAC

# Canllawiau – Nodiadau ar gyfer goruchwylio ymgeiswyr gydag amrywiad amserlen dros nos ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25

1. Os yw cyfanswm hyd tri neu fwy o arholiadau i'w sefyll mewn un diwrnod yn **fwy na 5 awr 30 munud** ar gyfer arholiadau TGAU neu'n **fwy na 6 awr** ar gyfer arholiadau TAG (UG, U2, Safon Uwch) mae'n bosibl y bydd canolfannau am drefnu goruchwyliaeth dros nos.

   Fodd bynnag, dylid cynnig y cyfle o hyd i'r ymgeisydd sefyll yr arholiadau i gyd ar y diwrnod gwreiddiol. Dylai'r ganolfan gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol am yr arholiad olaf sydd wedi'i sefyll.

2. Lle mae canolfan yn rhoi caniatâd i ymgeisydd sefyll arholiad a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer y prynhawn y bore canlynol†, **rhaid** i'r ganolfan **bob amser** benodi aelod o staff y ganolfan neu oruchwyliwr i oruchwylio'r ymgeisydd tra bydd yn y ganolfan yn sefyll arholiadau. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod o dan oruchwyliaeth y ganolfan **o 30 munud ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad a ohiriwyd. Rhaid** i'r ganolfan sicrhau nad oes unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr eraill.

   †Os gohirir unrhyw arholiad o brynhawn dydd Gwener, **rhaid** ei sefyll y bore canlynol, h.y. bore Sadwrn.

3. Gall rhiant/gofalwr neu staff y ganolfan oruchwylio ymgeisydd ar deithiau i'r ganolfan ac oddi yno a thros nos. **Rhaid** i'r ganolfan benderfynu ar ddull goruchwylio sy'n sicrhau llesiant yr ymgeisydd.

   **Rhaid** i'r goruchwyliwr oruchwylio'r ymgeisydd o'r adeg pan fydd yn gadael goruchwyliaeth y ganolfan nes y bydd y cyfrifoldeb am oruchwylio'r ymgeisydd yn cael ei drosglwyddo'n ôl eto i'r unigolyn penodedig yn y ganolfan.

4. **Rhaid** i'r trefniadau goruchwylio dros nos sicrhau **nad** yw'r ymgeisydd yn cael rhybudd ymlaen llaw o gynnwys yr arholiad a ohiriwyd tan y bore canlynol. Mae hyn yn golygu **na ddylai'r** ymgeisydd gwrdd na chyfathrebu ag unrhyw un sydd â gwybodaeth am y cynnwys.
   Mae hyn yn cynnwys e-bost, rhyngrwyd, gwasanaethau ffrydio ar-lein, cyfryngau print, radio, cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys apiau negeseuon), ffôn a theledu.

5. **Rhaid** cwblhau'r ffurflen *Datganiad Goruchwyliaeth dros Nos* **ddim hwyrach na 24 awr cyn dechrau'r oruchwyliaeth dros nos** fel bod y sawl sy'n cymryd rhan yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn.

   **Rhaid i'r** ganolfan a'r goruchwyliwr gadw copi o'r ffurflen.

6. **Rhaid peidio** ag amgáu ffurflenni *Datganiad Goruchwyliaeth dros Nos* gyda'r sgriptiau. **Rhaid** i'r sgriptiau gael eu hanfon at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.

7. **Rhaid** cadw'r holl ffurflenni *Datganiad Goruchwyliaeth dros Nos* wedi'u llenwi ar ffeil yn y ganolfan i'w harolygu. Mae'n bosibl storio ffurflenni'n electronig neu fel copi caled ar bapur. **Rhaid** eu cadw ar ffeil tan y bydd y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r marcio wedi pasio neu tan y bydd unrhyw ymholiad apêl, camymddwyn neu unrhyw ymholiad arall wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf. **Ni ddylid** anfon y ffurflen hon at gorff dyfarnu, oni bai y gofynnwyd amdani yn benodol.

8. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan fod yn fodlon bod y trefniadau yn bodloni gofynion y corff dyfarnu.

9. **Rhaid** i'r corff dyfarnu gael gwybod **ar unwaith** am unrhyw beth sy'n groes i'r amodau hyn, neu yr amheuir eu bod yn groes i'r amodau.

10. Caiff y corff dyfarnu ddefnyddio dulliau priodol i sicrhau bod yr amodau hyn wedi'u bodloni, a bydd yn cymryd camau os oes tystiolaeth o unrhyw beth sy'n groes i'r amodau. Gallai hyn arwain at ddiarddel unrhyw ymgeisydd/ymgeiswyr dan sylw, a gallai effeithio ar p'un a fyddai'r cyrff dyfarnu yn caniatáu i drefniadau o'r fath gael eu gwneud yn y dyfodol.

©JCQ 2024 – Yn weithredol o 1 Medi 2024